

Ei ffordd

“Wrth glywed hyn llanwyd pawb yn y synagog â dicter.” (adn. 28)

Beth am ddarllen Luc 4:14–29 ac yna myfyrio

Os ydym yn ddilynwyr i Iesu, fe ddylem fod â'r un diddordeb ag oedd gan ein Gwardedwr. Rhaid i ni fod yn sensitif ac yn ofalus, fel oedd Iesu. Wrth i ni edrych ar yr hyn sydd yn cael ei amlygu yn y darlleniad heddiw, gadewch i ni ystyried hyn: yn nyddiau Iesu Grist, fe fyddai'r Iddewon mwyaf crefyddol yn diolch i Dduw yn gyson nad oeddent wedi cael eu geni “yn wahanglwyf, yn wraig, nac yn genedl-ddyn”. Dyma oedd meddylfryd y bobl yr oedd Iesu yn pregethu iddynt yn y synagog yn Nasareth, ac fe ganiataodd i'r bobl hyn glywed pa mor bell yr oedd am fynd gyda'i raglen o ryddid. Bu yna newyn mawr yn ystod cyfnod Eleias, ac, o ganlyniad, roedd yna lawer o wragedd gweddwon yn Israel. Ond ni ddanfonwyd y proffwyd at yr un o'r rhain. Yn hytrach, danfonwyd Eleias at wraig weddw yn Sarepta. Yr un modd yng nghyfnod Eliseus, roedd yna lawer o wahangleifion yn Israel, ond ni iachawyd yr un ohonynt hwy, ond, yn hytrach, Namaan, y Syriad. Beth oedd Iesu yn ei ddweud wrth y bobl yma? Roedd yn dweud fod Duw yn gofalu am wragedd, yn gofalu am wahangleifion, yn gofalu am genedl-ddynion. Meddai un esboniwr: “Mae Iesu'n nodi yn glir fod eu gweddiâu dyddiol yn gwbl annerbyniol.”

Roedd y bobl wedi gwylltio hefo Iesu a bu iddynt ei ddwyn i ben y bryncyn, lle'r adeiladwyd Nasareth, er mwyn ei daflu oddi yno. Nid oedd ganddynt unrhyw ddiddordeb yn ei ofal ef. Yr unig ofal oedd yn bwysig iddyn nhw oedd gofal dros eu cenedl eu hunain. Roeddent yn fwy na pharod i lofruddio Iesu, ac eto, yn sydyn, dyma rywbeth am Iesu yn peri eu bod yn ymatal. Mae'r adran yn gorffen trwy ddweud wrthym: “Ond aeth ef drwy eu canol hwy, ac ymaith ar ei daith.” Sylwch ‘ymaith ar ei daith’, nid eu taith hwy. Felly, fel ei ddilynwyr, dylem ddilyn ei ffordd ef, nid ein ffordd ni, ei ffordd ef o ofalu, dros bawb, ymhobman.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Math. 8:1–3; Marc 10:13–16; Ioan 4:5–27; Actau 20:35

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Pam bu i Iesu gyffwrdd â'r gŵr oedd yn dioddef o'r gwahanglwyf?
2. Pam synnwyd y disgyblion?

Gweddi

Iesu, fy Arglwydd a'm Meistr, mae yna rywbeth yn fy nghalon sydd yn peri fy mod am ddilyn fy ffordd fy hun. Cynorthwya fi i'th ddilyn di, i feddiannu dy ffordd di, i ofalu am eraill. Hyn yw fy ngweddi. Amen.